



Dŵr Cymru  
Welsh Water

# Gollyngiadau Preifat

Beth mae angen  
i chi ei wneud



[dwrcymru.com](http://dwrcymru.com)





## Cymorth i gwsmeriaid

Rydyn ni'n deall bod canfod fod dŵr yn gollwng yn gallu peri gofid, ac rydyn ni am wneud bywyd yn haws trwy ddarparu'r holl gyngor sydd ei hangen arnoch yn y llyfryn hwn.

Mae dŵr yn adnodd gwerthfawr, ac mae'n costio llawer o arian i'w godi o afonydd, ei storio mewn cronfeydd, ei drin, a'i gludo i chi. R'yn ni'n awyddus i weithio gyda chi i sicrhau bod gollyngiadau'n cael eu trwsio cyn gynted â phosibl.





## Pwy sydd biau beth?





Mae'n hawdd tybio taw cyfrifoldeb Dŵr Cymru yw trwsio unrhyw ollyngiadau – wedi'r cyfan, ni sy'n cyflenwi eich dŵr. Yn y mwyafrif o achosion, ni sydd biau'r pibellau dŵr hyd at ffin eich eiddo â'r stryd. Mae hyn yn cynnwys y stoptap fel rheol, ond nid bob tro. Byddwn ni'n trwsio gollyngiadau ar y pibellwaith sydd y tu hwnt i'r ffin bob tro.


Chi (neu eich landlord) sydd biau'r bibell sy'n rhedeg o'r ffin i mewn i'ch eiddo a chi sy'n gyfrifol amdani. Eich 'pibell gyflenwi' yw hon – gweler rhan A o'r diagram. Mae'n gallu rhedeg o dan eich man parcio, eich llwybr neu'ch gardd, ac am ei bod o dan y ddaear, ni fydd hi'n amlwg bob tro bod rhywbeth o'i le.

Weithiau mae eich pibell gyflenwi'n gallu bod yn eithaf hir a chroesi eiddo rhywun arall, a chi (neu eich landlord) sy'n gyfrifol am y rhan yna o'r bibell hefyd.

Gall pibell gyflenwi ddarparu dŵr ar gyfer sawl eiddo – gweler Rhan B o'r diagram isod – ac mewn achosion o'r fath, holl berchnogion yr eiddo sy'n rhannu'r cyfrifoldeb a'r costau cynnal a chadw a thrwsio.

### Allwedd

-  Cyfrifoldeb perchennog yr eiddo/y landlord
-  Ein cyfrifoldeb
-  Ffin yr eiddo
-  Lleoliad y stoptap





## Ydych chi'n rhannu eich pibell gyflenwi breifat â'ch cymdogion?


Mae hyn yn gallu bod yn dipyn o her am eich bod chi a'ch cymdogion yn rhannu'r cyfrifoldeb dros gostau cynnal a thrwsio'r bibell gyflenwi'n gyfartal, dim ots ble mae'r dŵr yn gollwng.

Os ffeindiwn eich bod chi'n rhannu eich pibell ddŵr, byddwn ni'n trafod yr holl opsiynau â chi a'r perchnogion eraill wrth alw. Mae'n debygol y bydd angen i chi drafod y sefyllfa a chytuno ar yr ateb gyda'ch cymdogion.

Mae'n bosibl y bydd diddordeb gennych osod pibell ddŵr ar wahân i'ch eiddo, a byddem yn argymhell hynny bob tro.

Os ydych chi'n cael eich dŵr trwy bibell gyflenwi breifat a bod rhan ohoni'n gollwng, mae'n bosibl y byddwn ni'n gofyn i bawb sydd â chysylltiad â'r bibell osod pibellau newydd unigol.

Rhan B





## Beth mae angen i chi ei wneud

Nid gwastraffu dŵr yw'r unig broblem – mae gollyngiadau'n gallu difrodi eiddo a gerddi, ac effeithio ar yr amgylchedd. Dyma beth i'w wneud:

### 1. Os ydych chi'n denant

Siaradwch â'ch landlord Os ydych chi'n rhentu'ch eiddo (gan awdurdod lleol, cymdeithas dai neu landlord masnachol), rydyn ni'n awgrymu eich bod chi'n cysylltu â nhw ar unwaith, oherwydd mae'n bosibl taw eu cyfrifoldeb nhw fydd gwneud trefniadau i drwsio'r broblem.

### 2. Os ydych chi'n berchen ar eich cartref ac yn byw yno

Os ydych chi'n berchen ar yr eiddo ac yn byw yno, cyfeirwch at yr adran "Y Cynllun Trwsio Gollyngiadau am Ddim". Fe wnawn ni beth y gallwn ni i'ch cynorthwyo i drwsio'r gollyngiad, ond ni fydd hi'n bosibl trwsio'r peth bob tro, ac mae'n bosibl y bydd angen i chi drefnu'r gwaith neu ddisodli'r bibell eich hun.

### 3. Os ydych chi'n fusnes neu'n landlord

Yn anffodus, ni allwn gynnig cymorth i chi o dan ein cynllun trwsio am ddim. Eich cyfrifoldeb chi yw cyflawni'r gwaith trwsio angenrheidiol a rhoi gwybod i ni pan fyddwch wedi cwblhau'r gwaith. Mae rhagor o fanylion ar dudalennau 14 a 15. Rydyn ni'n hapus i drafod eich achos, ac fe wnawn ni beth y gallwn ni i'ch cynorthwyo trwy'r broses.

### 4. Gwiriwch eich Yswiriant

Mae rhai polisiâu yn eich yswirio rhag gollyngiadau ar bibellau cyflenwi, felly darllenwch eich polisi – mae'n bosibl y byddwch wedi eich yswirio. Os felly, rhowch alwad iddyn nhw. Rydyn ni'n hapus i ddarparu tystiolaeth i gwmnïau yswiriant i gadarnhau bod gennych ddŵr yn gollwng – ond mae angen i chi rannu manylion rheolwr achos y cwmni yswiriant â ni er mwyn i ni anfon llythyr neu e-bost atynt.

### 5. Ffeindiwch blymwr preifat

Efallai byddai'n well gennych ffonio plymwr preifat. Dim ond chi all benderfynu ar y plymwr gorau at eich anghenion chi, ond rydyn ni'n awgrymu'ch bod chi'n defnyddio un sy'n aelod o Gynllun Contractwyr Cymeradwy, fel WaterSafe neu Gynllun Plymwr Cymeradwy'r Diwydiant Dŵr (WIAPS). Mae rhagor o fanylion ar ein gwefan, [dwrcymru.com](http://dwrcymru.com)

Os nad oes gennych gysylltiad â'r rhyngwryd gallwch gysylltu â WaterSafe neu WIAPS yn uniongyrchol trwy ffonio **0333 207 9030**.

Fel arall, gallwch ddod o hyd i blymwr lleol trwy chwilio ar lein, mewn newyddleni/cylchgronau cymunedol lleol neu gallecth ofyn am argymhellion gan eich cymdogion.

### 6. Os oes mesurydd dŵr gennych

Os oes mesurydd dŵr gennych, gallai dŵr sy'n gollwng gynyddu eich bil. Ond os yw'r dŵr yn gollwng o'ch pibell gyflenwi a chewch y broblem wedi ei thrwsio cyn pen 30 diwrnod, byddwn ni'n rhoi lwfans untro i chi i dalu cost y dŵr a gollwyd.

### 7. Pryderon ariannol?

Rydyn ni'n deall bod gollyngiadau'n gallu bod yn dipyn o sioc i'n cwsmeriaid a'u bod yn gallu achosi pryderon ariannol. Er na allwn ni helpu gyda chost y gwaith trwsio, mae'n bosibl y bydd yna ffyrdd eraill y gallwn ni'ch helpu chi i arbed arian. Mae rhagor o fanylion ar dudalen 9 o'r llyfryn hwn.



## Y Cynllun Trwsio Gollyngiadau am Ddim\*

\*Mae ein cynllun trwsio gollyngiadau am ddim ar gael i gwsmeriaid sy'n berchen ar eu cartrefi ac yn byw yno; nid yw'r cynllun ar gael i gartrefi sy'n cael eu rhentu i rywun arall neu sy'n fusnes.

Mewn rhai achosion, mae'n bosibl y gallwn ffeindio a thrwsio dŵr sy'n gollwng ar eich pibell gyflenwi unwaith bob tair blynedd. Mae ein gallu i gynnig gwaith trwsio am ddim o dan y cynllun hwn yn dibynnu ar nifer o ffactorau. Mae'n bosibl y gallwn helpu os...



Yw'r dŵr yn gollwng ar eich pibell gyflenwi allanol



Yw'r bibell gyflenwi'n 100 metr neu lai o hyd



Oes gan eich pibell gyflenwi ddiamedr allanol o hyd at 32mm



Nad yw'r dŵr yn gollwng o'r darn o'r bibell gyflenwi sydd o dan eich eiddo, wal, sied, garej neu unrhyw fath o strwythur parhaol



Yw'r bibell gyflenwi sy'n gollwng 1.35 metr neu lai o dan y ddaear

Peidiwch â phoeni os nad ydych chi'n gwybod yr union fanylion. Bydd un o'n cydweithwyr yn gallu gwirio hyn wrth alw draw.

Mae hi'n bosibl y bydd angen i ni gloddio i lawr i gyrraedd y bibell gyflenwi a chyflawni profion arni er mwyn mynd at wraidd y broblem. Byddwn ni'n esbonio'r holl gamau y mae angen eu cymryd. Os na allwn ni ganfod o ble mae'r dŵr yn gollwng ar yr ail ymgais, bydd angen i chi dalu am unrhyw waith ymchwilio pellach, a phenodi contractwr o'ch dewis i gyflawni'r gwaith yma.

Bydd ein timau'n defnyddio'r offer sydd ar gael iddynt, ynghyd â'u hyfforddiant a'u profiad, i ddod o hyd i ollyngiadau, ond yn anffodus, nid yw hynny'n bosibl bob tro, ac ar adegau ni fyddwn ni'n gallu mynd at wraidd y broblem. Os na allwn eich cynorthwyo â'r gwaith trwsio, rydyn ni'n argymhell eich bod chi'n gofyn am farn rywun arall ar leoliad y gollyngiad cyn cyflawni gwaith.

Os ffeindiwn ni fod eich pibell gyflenwi mewn cyflwr gwael a'i bod yn debygol o ollwng eto, mae'n bosibl y penderfynwn ni bod angen disodli hyd at 15 metr ohoni. Os felly, byddwn ni'n trafod hyn â chi ac yn cael sêl eich bendith yn gyntaf.

Mae ein gwaith wedi ei warantu am hyd at flwyddyn ac mae'n annhebygol o fethu. Os bydd y gwaith trwsio'n diffygio, byddwn ni'n cyflawni'r gwaith am ddim eto fel rheol, ond ar ôl hynny, mae'n debygol y bydd angen i chi ddisodli'r bibell o'ch poced eich hun.

Os nad ydym wedi llwyddo i siarad â chi'n uniongyrchol eto, a'ch bod chi'n credu eich bod chi'n gymwys ar gyfer y cynllun trwsio gollyngiadau am ddim, rhowch alwad i ni.



## Adfer y tir ar ôl cwblhau'r gwaith

Bydd ein tîm trwsio mor dwt a thaclus ag y gallant fod wrth gyflawni'r gwaith, ond mae hi'n debygol y bydd yr ardal yn wlyb ac yn fwdlyd. Byddwn ni'n gwneud pob ymdrech i adfer popeth i fel yr oedd cyn dechrau, ond ni fydd hynny'n bosibl bob tro. Ar bob cam o'r ffordd, byddwn ni'n trafod y broses â chi ac yn rhoi gwybod i chi am unrhyw newidiadau angenrheidiol tymor hwy.

Yn anffodus, ni allwn drwsio na disodli arwynebau arbenigol bob tro. Os oes gennych arwyneb na restrir dros y ddalen, byddwn ni'n trafod beth y gallwn ei wneud â chi cyn dechrau'r gwaith.

Gall rhai arwynebau gael eu difrodi neu eu difetha wrth i ni gloddio a chyflawni'r gwaith trwsio. Wrth gwrs, fe wnawn ni'n gorau i osgoi hyn, ond os bydd hynny'n digwydd, ni fyddwn ni'n gallu disodli'r deunydd a ddifrodwyd. Byddwn ni'n trafod beth y gellir ei wneud, a allai gynnwys aildefnyddio'r deunydd a ddifrodwyd neu ddefnyddio tarmac neu goncrit yn lle.

Dim ond yr ardal a gloddiwyd i gyflawni'r gwaith trwsio y gallwn ei hadfer. Ni allwn wella ardaloedd o amgylch y manau lle'r ydyn ni bod yn wedi gweithio.

Wrth gwrs, gallwch drwsio'r arwyneb eich hun, o'ch poced eich hun. Os felly, byddwn ni'n llenwi'r twll ac yn gadael yr ardal yn ddiogel ac yn daclus.

Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod llawer i feddwl amdano ac y byddwch am drwsio'r broblem cyn gynted â phosibl. Felly os ydych chi'n meddwl y gallem ni helpu, rhwch wybod i ni a byddwn ni'n trefnu bod un o'n cydweithwyr yn galw i gynnig cyngor i chi.





**Dyma rai esiamplau o'r arwynebeddau nodweddiadol a ffeindiwn yn eiddo cwsmeriaid fel rheol a sut rydym yn eu hadfer ar ôl cyflawni unrhyw waith trwsio.**

### **Pridd moel neu dir segur**

**Byddwn ni'n:**

- Adlenwi'r twll ac yn gadael yr ardal yn ddiogel ac yn daclus.

### **Glaswellt**

**Byddwn ni'n:**

- Codi'r tyweirch cyn dechrau'r gwaith
- Adlenwi'r twll ac yn ailosod y tyweirch. Efallai y bydd angen i chi ddyfrio a chynnal a chadw'r glaswellt ar ôl y gwaith.

### **Coed a llwyni**

- Mae hi'n bosibl y bydd angen i ni glirio neu docio coed yn yr ardal lle mae angen i ni weithio. Ond mae hi'n bwysig gwybod na fyddwn ni'n eu disodli. Ym mhob achos, byddwn ni'n trafod hyn â chi cyn dechrau unrhyw waith.

### **Gro neu raeau**

**Byddwn ni'n:**

- Codi'r cerrig mân ar ddechrau'r gwaith.
- Adlenwi'r twll gan ddefnyddio'r deunydd gwreiddiol a oedd o dan yr wyneb.
- Dychwelyd y cerrig mân gwreiddiol i'r wyneb. Efallai y gwelwch chi ryw faint o bridd yn gymysg gyda'r cerrig yn sgil y gwaith.

### **Concrit neu darmac**

**Byddwn ni'n:**

- Adlenwi'r twll
- Gosod concrit neu darmac newydd dros ardal y gwaith. Gallai fod yn lliw gwahanol i'r wyneb sydd yno am ein bod ni'n defnyddio cynnyrch tarmac a concrit safonol.

### **Cerrig palmant (slabiau neu blociau)**

**Byddwn ni'n:**

- Codi'r slabiau neu'r blociau ar ddechrau'r gwaith
- Adlenwi'r twll gan ddefnyddio'r deunydd gwreiddiol a oedd o dan yr wyneb.
- Dychwelyd y slabiau neu'r blociau gwreiddiol lle bo modd.



## Beth yw'r cam nesaf?

Bydd aelod o'n tîm Gollyngiadau ar Bibellau Cyflenwi Cwsmeriaid yn cysylltu â chi cyn pen y 5 diwrnod gwaith nesaf i drafod eich gollyngiad. Byddan nhw'n gwneud popeth y gallan nhw i;

- Eich cynorthwyo a'ch cyngori trwy'r broses o drwsio eich gollyngiad.
- Rhoi gwybod i chi pryd y bydd ein contractwyr yn dod allan i gyflawni unrhyw waith.
- Sicrhau bod gennych linell uniongyrchol i siarad â rhywun sy'n gwybod am eich gollyngiad fel nad oes angen i chi siarad â sawl person gwahanol ar draws Dŵr Cymru.
- Trefnu unrhyw ymweliadau pellach sydd eu hangen i gyflawni archwiliadau (e.e. os yw eich pibell wedi cael ei hadnewyddu bydd angen i ni ei harchwilio) a threfnu unrhyw waith o'n hochr ni (e.e. ailgysylltu eich pibell newydd).
- Siarad â pherthnasau neu awdurdodau allanol er mwyn cynorthwyo ein cwsmeriaid bregus (os ydych chi'n cydsynio).
- Gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer eich cwmni yswiriant os oes arnynt angen gwybodaeth bellach i ategu eich hawliad.
- Ar ôl trwsio eich gollyngiad, sicrhau ein bod ni'n cadarnhau nad oes unrhyw ollyngiadau ar eich cyflenwad er mwyn rhoi tawelwch meddwl i chi.
- Os oes mesurydd dŵr gennych, byddwn ni'n sicrhau bod yr holl wybodaeth sydd ei hangen i ddiwygio eich bil ar gael. Mae hi'n gallu cymryd hyd at 90 diwrnod i gyfrifo lwfans gollwng a gweithredu arno – yn y cyfamser, peidiwch â phoeni, ond parhewch i dalu eich bil fel arfer.



## Rhagor o ffyrdd i'ch helpu chi i arbed dŵr ac arian...

Ydych chi ar y tariff cywir? Efallai y gallwn ni'ch helpu chi i leihau eich biliau gydag un o'r opsiynau canlynol:

### Water Direct

Mae ein cynllun Water Direct yn gwneud talu biliau'n llai trafferthus. Mae'n caniatáu i'r cwsmeriaid hynny sy'n derbyn rhai budd-daliadau ac sydd mewn dyled ar hyn o bryd i dalu'n uniongyrchol trwy eu budd-daliadau. Dyma'r cynllun talu isaf y gallwn ei gynnig i chi. A thrwy gofrestru byddwn ni'n cwtogi £25.00 ar eich bill!

### Newid i fesurydd

Os yw'ch tâl blynyddol sefydlog yn uchel, os nad ydych chi'n defnyddio llawer o ddŵr neu os ydych chi'n byw ar eich pen eich hun, gallai gosod mesurydd arbed arian i chi. Ni chodir tâl am osod mesurydd ac mae llawer o'n cwsmeriaid eisoes wedi newid ac wedi ffeindio eu bod ar eu hennill. Trwy wneud cais am fesurydd, mae gennych chi'r opsiwn i newid nôl i'ch tâl blynyddol sefydlog unrhyw bryd hyd at 2 flynedd o ddyddiad gosod y mesurydd.

### WaterSure Cymru

Mae ein cynllun WaterSure Cymru ar gael i gwsmeriaid sydd â mesurydd dŵr eisoes neu sy'n dewis gosod mesurydd dŵr. Mae WaterSure Cymru'n helpu aelwydydd ag incwm isel sy'n derbyn budd-daliadau cymwys neu gredyd trethi ac sydd naill ai â theulu mawr neu â rhywun yn byw gyda chi sydd ag anhwylder meddygol sy'n gofyn am ddefnyddio mwy o ddŵr. Byddwn ni'n gosod terfyn uchaf ar eich taliadau blynyddol am y flwyddyn.

### HelpU

Os ydych chi'n aelwyd ag incwm isel sy'n derbyn budd-daliadau ar sail prawf moddion, efallai y byddwch chi'n gymwys i gael cymorth ein tariff HelpU i leihau eich taliadau yn y dyfodol.

### Y Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid

Os ydych chi mewn dyled i ni ac nad ydych mewn sefyllfa i dalu, gallai'r Gronfa Cymorth i Gwsmeriaid helpu. Os byddwch chi'n talu eich taliadau cyfredol am 6 mis, byddwn ni'n talu hanner eich dyled i chi! Ac os talwch chi am 6 mis pellach wedyn byddwn ni'n talu gweddill eich dyled i chi!

### Pan fo angen ychydig o gymorth ychwanegol arnoch

Efallai eich bod chi'n rhiant â phlentyn ifanc, yn cael triniaeth ddialysis, bod gennych broblemau gyda'ch golwg neu'ch clyw neu eich bod yn oedranus neu'n anabl

Trwy gofrestru ar ein Cofrestr Gwasanaethau Blaenoriaeth, gallwch gael cymorth ychwanegol gyda:

- Dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth.
- Dŵr potel os oes problem gyda'ch cyflenwad.
- Tawelwch meddwl rhag galwyr ffug.

Ffoniwch **0800 0520145**

Dydd Llun-dydd Gwener: 8am-6pm

Dydd Sadwrn: 9am-1pm

neu ewch i [dwrcymru.com/arian](http://dwrcymru.com/arian)

**Peidiwch ag anwybyddu problemau gyda thalu'ch biliau.** Efallai y gallwn ni wneud pethau'n haws i chi.



## Chwilio am ollyngiadau

Ar ôl trwsio'r gollyngiad, gobeithio na chewch chi broblem eto, ond mae'n werth cadw llygad. Gallwch wneud hyn trwy gymryd ambell i gam syml:





### Os oes gennych fesurydd dŵr:

- Caewch yr holl dapiau yn yr eiddo a sicrhewch nad oes unrhyw ddŵr yn cael ei ddefnyddio – neu gallwch gau eich stoptap mewnol.
- Darllenwch y mesurydd (lle bo'n ddiogel gwneud hynny) a gwnewch nodyn o'r darlenniad. Cofiwch ddarllen y rhifau du a'r rhai coch.
- Cymrwch ail ddarlenniad ymhen 30 munud gan sicrhau nad oes unrhyw ddŵr yn cael ei ddefnyddio.
- Os yw'r ail ddarlenniad yn uwch, efallai bod yna broblem.
- Ffoniwch blymwr.



### Os nad oes gennych fesurydd dŵr:

- Gwrandewch am sŵn hisian neu guro yn y pibellau.
- Diffoddwch y cyflenwad dŵr wrth y stoptap mewnol.
- Gwnewch yn siŵr nad oes unrhyw ddŵr yn dod allan o dap dŵr oer y gegin ar ôl cau'r stoptap mewnol (os oes dŵr yn dod allan o hyd, yna hwyrach fod y stoptap mewnol yn ddiffygiol).
- Os oes sŵn o hyd, gallai fod dŵr yn gollwng ar y bibell gyflenwi.
- Ffoniwch blymwr.

### Cadw'n ddiogel

Os adeiladwyd eich eiddo cyn 1966 bydd angen i chi sicrhau bod eich trydan wedi ei ddoeoru'n iawn. Cysylltwch â'r cwmni sy'n cyflenwi eich trydan neu drydanwr cymeradwy.



## Beth fydd yn digwydd os na fyddwch chi'n trwsio'r broblem?

Efallai na fyddwch chi'n sylweddoli hyn, ond mae gofyniad cyfreithiol arnoch i drwsio unrhyw ollyngiadau o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA 1991). Os penderfynwch chi drwsio'r broblem eich hun, yna mae 30 diwrnod gennych i'w gwblhau. Os nad yw'r broblem wedi cael ei datrys erbyn hynny, byddwn ni'n cysylltu â chi eto i drafod y camau nesaf ac i ganfod beth sy'n achosi'r oedi. O dan rai amgylchiadau, byddwn ni'n defnyddio pwerau cyfreithiol i sicrhau bod problemau'n cael eu datrys.

Wrth gwrs, dyna'r peth diwethaf rydyn ni am ei wneud, ond mae'n bwysig iawn ein bod ni'n dweud wrthyhych beth allai ei ddigwydd os na fyddwch chi'n trwsio'r gollyngiad. Rydyn ni'n gwerthfawrogi y gallai fod yna reswm dilys dros oedi gyda'r gwaith. Os felly, y peth gorau i chi ei wneud yw cysylltu â ni ac fe wnawn ni'n gorau glas i helpu.



## Y stff cyfreithiol

Hwyrach nad ydych chi'n ymwybodol bod cadw dŵr yn gollwng yn drosedd o dan Adran 73 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA 1991). Mae hyn yn golygu, os na fyddwch chi'n trwsio'r gollyngiad, gallwn eich erlyn am gadw eich ffitiadau dŵr mewn cyflwr diffygiol. Gellir eich dirwyo hyd at £1,000.

Mae manylion Adran 73 isod os ydych am eu darllen:

*"Os oes unrhyw berson sy'n berchennog neu'n ddeiliad ar unrhyw eiddo lle mae cyflenwad dŵr sy'n cael ei ddarparu gan ymgymerydd dŵr yn achosi, yn fwiadol neu trwy esgeulustra, neu'n gadael i unrhyw ffitiad dŵr y mae'n gyfrifol amdano i fod, neu i aros yn ddiffygiol fel bod angen ei drwsio, neu ei fod wedi ei adeiladu neu ei addasu yn y fath fodd, neu'n gadael iddo gael ei ddefnyddio yn y fath fodd bod y dŵr a ddarperir yn, neu'n debygol o gael ei wastraffu neu, yn rhinwedd y dibenion y cyflenwir y dŵr ar eu cyfer, cael ei gamddefnyddio neu ei ddefnyddio'n ddiangen, yna bydd y person hwnnw'n euog o drosedd ac yn atebol ar euogfarn ddiannod i dalu dirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safon!"*

Fel y soniwyd ar dudalen 6, yn ogystal â gwastraffu dŵr mae gollyngiadau'n gallu difrodi eiddo a gerddi. Dyma pam ei bod hi mor bwysig trwsio'r broblem cyn gynted â phosibl, a dyna pam ein bod ni wedi gosod terfyn amser ar ei datrys – cyn pen 30 diwrnod ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o'r broblem. Mae Adran 75(2)b o WIA 1991 yn rhoi'r awdurdod i ni wneud hyn.

O ganlyniad, hysbysir drwy hyn bod rhaid i chi drwsio'r gollyngiad cyn pen 30 diwrnod ar ôl iddo ddod i sylw er mwyn atal gwastraffu dŵr pellach. Os daw'r gollyngiad yn argyfwng, neu os yw'r eiddo i'w gweld yn segur ac nad yw'r gwaith trwsio wedi cael ei gyflawni erbyn diwedd y cyfnod a bennwyd, gallwn ddatgysylltu'r bibell gyflenwi, neu ddiffodd cyflenwad dŵr eich eiddo trwy ddull arall yn unol ag Adran 75(2) o WIA 1991.

Mae hi'n bwysig ein bod ni'n rhoi gwybod i chi, yn ogystal â bod yn drosedd o dan WIA 1991, mae gwastraffu dŵr yn mynd yn groes i Reoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 hefyd, sy'n dwyn dirwy o hyd at £1,000.

Os na fyddwch chi'n trwsio'r gollyngiad o fewn yr amser a bennwyd (30 diwrnod) yna gallwn gyflawni'r gwaith ein hunain a chodi tâl arnoch. Byddem yn gwneud hyn er mwyn atal gwastraffu rhagor o ddŵr ac er mwyn osgoi'r risg o halogi'r cyflenwad dŵr.

Yn achlysurol, bydd angen i ni fynd i'ch eiddo i archwilio'r pibellau a'r ffitiadau. Gobeithio na fydd hyn yn broblem, ond os na chaniateir mynediad i'r eiddo i ni, hwyrach y bydd angen i ni gyflwyno cais i Lys yr Ynadon am Warant Mynediad. Os ceir bod y ffitiadau dŵr yn ddiffygiol, byddwn ni'n cyflwyno hysbysiad tor-reolau a fydd yn rhoi cyfnod penodol i chi eu trwsio neu eu disodli. Os na fyddwch chi'n gwneud hyn o fewn y terfyn amser, gellir eich erlyn.

Rydyn ni'n gobeithio'n fawr na fydd angen i ni gymryd y camau uchod, ond roedden ni'n teimlo ei bod hi'n bwysig ein bod ni'n rhoi gwybod i chi am y darnau cyfreithiol a beth gallai ddiwydd os na fyddwch chi'n gwneud trefniadau i drwsio gollyngiad yn eich eiddo.



## Sut i gysylltu

Gobeithio bod y wybodaeth yn y llyfryn hwn wedi bod o gymorth i chi. Byddwn ni'n cysylltu â chi pan fyddwn ni wedi addo, ond os oes unrhyw gwestiynau gennych gallwch gysylltu trwy:

Fynd ar-lein  
(gan gynnwys Sgwrs Fyw)  
[dwrcymru.com](http://dwrcymru.com)

I drafod eich gollyngiad  
0800 052 0130  
*24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos*



Gallwch gadw mewn cysylltiad â'r newyddion diweddaraf ar:

**Twitter**  
[@dwrcymru](https://twitter.com/dwrcymru)

**Facebook**  
[/dwrcymruwelshwater](https://www.facebook.com/dwrcymruwelshwater)

**YouTube**  
[/dwrcymruwelshwater](https://www.youtube.com/dwrcymruwelshwater)